**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 1203 (Cy. 64 )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2001, yn diwygio ymhellach ar Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) 1993 mewn perthynas â Chymru.

Mae Rheoliadau 1993 yn ymwneud â newid rhestri ardrethu annomestig sy'n cael eu llunio o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

Maent yn cynnwys darpariaeth bod newid mewn rhestr sydd wedi'i llunio ar 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny, a hwnnw'n cael ei wneud ar sail newid perthnasol mewn amgylchiadau, yn dod yn effeithiol o'r diwrnod cyntaf y cododd yr amgylchiadau sy'n arwain at y newid yn y rhestr neu o'r diwrnod cyntaf yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno, p'un bynnag yw'r olaf. Oherwydd hyn, ni fydd y newid yn y rhestr yn dod yn effeithiol o'r diwrnod cyntaf y cododd y newid amgylchiadau oni fydd y cynnig yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y flwyddyn ariannol y digwyddodd y newid amgylchiadau gyntaf.

Os yw'r rhestr a gafodd ei llunio ar 1 Ebrill 2000 yn cael ei newid yn sgil cynnig ar sail newid perthnasol mewn amgylchiadau a gododd gyntaf ar ddiwrnod ar ôl 31 Rhagfyr 2000 ond cyn 1 Ebrill 2001, yna mae'r Rheoliadau hyn yn golygu y bydd y newid yn y rhestr yn effeithiol o'r dyddiad hwnnw ymlaen os caiff y cynnig ei gyflwyno cyn 1 Gorffennaf 2001.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 1203 (W. 64 )

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Non-Domestic Rating (Alteration of Lists and Appeals) (Amendment) (Wales) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

These Regulations, which come into force on 1st April 2001, further amend the Non-Domestic Rating (Alteration of Lists and Appeals) Regulations 1993 in relation to Wales.

The 1993 Regulations concern the alteration of non-domestic rating lists compiled under the Local Government Finance Act 1988.

They include provision for an alteration to a list compiled on or after 1st April 2000 which is made on the grounds of a material change of circumstances to have effect from the day on which the circumstances giving rise to the alteration first arose or from the first day of the financial year in which the proposal is served, whichever is the later. Consequently, the alteration in the list will only take effect from the day on which the change of circumstances first arose if the proposal is served before the end of the financial year in which the change first occurred.

The effect of these Regulations is that, where the list compiled on 1st April 2000 is altered following a proposal on the grounds of a material change of circumstances which first arose on a day after 31st December 2000 but before 1st April 2001, the alteration will have effect from that day if the proposal is served before 1st July 2001.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 1203 (Cy. 64 )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *27 Mawrth 2001* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 55(2) a (6), 140 a 143(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**a**) sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**b**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**- (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diwygio Rheoliadau 1993**

**2.**-(1) Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) 1993(**c**) yn cael eu diwygio yn unol â'r paragraff canlynol.

(2)` Yn Rheoliad 13A(**ch**) (yr amser y daw'r newid yn effeithiol: cyffredinol) -

(a) ym mharagraff (5), ar ôl "paragraphs (7),", rhowch "(7A)," a

(b) ar ôl paragraff (7), mewnosodwch -

(a) 1988 p. 41.

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1993/291.

(ch) Mewnosodwyd Rheoliad 13A, mewn perthynas â Chymru, gan Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2000 (O.S. 2000/792) (Cy. 29).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 1203 (W. 64 )

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Non-Domestic Rating (Alteration of Lists and Appeals) (Amendment) (Wales) Regulations 2001

| | |
|---|---|
| *Made* | *27th March 2001* |
| *Coming into force* | *1st April 2001* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers given to the Secretary of State by sections 55(2) and (6), 140 and 143(1) of the Local Government Finance Act 1988(**a**) which are now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales(**b**):

**Name, commencement and application**

**1.**- (1) The name of these Regulations is the Non-Domestic Rating (Alteration of Lists and Appeals) (Amendment) (Wales) Regulations 2001 and they shall come into force on 1st April 2001.

(2) These Regulations apply to Wales only.

**Amendments to the 1993 Regulations**

**2.**- (1) The Non-Domestic Rating (Alteration of Lists and Appeals) Regulations 1993(**c**) are amended in accordance with the following paragraph.

(2) In Regulation 13A(**d**) (time from which alteration is to have effect: general) -

(a) in paragraph (5), after "paragraphs (7),", insert "(7A)," and

(b) after paragraph (7), insert -

(a) 1988 c. 41.

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1993/291.

(d) Regulation 13A was inserted, in relation to Wales, by the Non-Domestic Rating (Alteration of Lists and Appeals) (Amendment) (Wales) Regulations 2000 (S.I. 2000/792) (W. 29).

"(7A) For the purpose of paragraph (5), where an alteration is made in pursuance of a proposal served after 31st March 2001 but before 1st July 2001 and the circumstances giving rise to the alteration first arose after 31st December 2000 but before 1st April 2001, then the proposal shall be treated as served on 31st March 2001."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

27 Mawrth 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

"(7A) For the purpose of paragraph (5), where an alteration is made in pursuance of a proposal served after 31st March 2001 but before 1st July 2001 and the circumstances giving rise to the alteration first arose after 31st December 2000 but before 1st April 2001, then the proposal shall be treated as served on 31st March 2001."

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

27th March 2001

*D.Elis Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38

(a) 1998 c.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 1203 (Cy. 64 )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2001

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 1203 (W. 64 )

# RATING AND VALUATION, WALES

The Non-Domestic Rating (Alteration of Lists and Appeals) (Amendment) (Wales) Regulations 2001

© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090211-4

9 780110 902111

**£1.75**

W/255/05/01 ON